# Pleidleisiau a Thrafodion - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mercher, 6 Mehefin 2018

Amser y cyfarfod: 13.30

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/4988

# 142

## 1 Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth

Dechreuodd yr eitem am 13.30

Gofynnwyd yr 8 cwestiwn cyntaf. Atebwyd cwestiwn 7 gan y Gweinidog Diwylliant, Twristiaeth a Chwaraeon. Gwahoddodd y Llywydd lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet ar ôl cwestiwn 2.

## 2 Cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol

Dechreuodd yr eitem am 14.22

Gofynnwyd yr 4 cwestiwn.

## 3 Cwestiynau Amserol

Ni dderbyniwyd unrhyw gwestiynau amserol.

## 4 Datganiadau 90 Eiliad

Dechreuodd yr eitem am 14.36

Gwnaeth Vikki Howells ddatganiad ar Merched Cwm Cynon yn allweddol i lwyddiant "Tîm Prydain" ym Mhencampwriaeth Aerobic y Byd 2018.

## 5 Dadl y Ceidwadwyr Cymreig - Adnewyddu Trefol

Dechreuodd yr eitem am 14.38

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig a'r gwelliannau o dan yr eitem hon tan y Cyfnod Pleidleisio.**

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig heb ei ddiwygio:

**NDM6734** Paul Davies (Preseli Sir Benfro)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi pwysigrwydd ardaloedd trefol yng Nghymru fel peiriannau o dwf economaidd, dysgu a chreadigrwydd.

2. Yn credu bod gofyniad ar gyfer strategaeth genedlaethol uchelgeisiol ar gyfer adfywio trefol yng Nghymru a fyddai'n helpu i wneud ein trefi a'n dinasoedd yn addas ar gyfer yr 21ain ganrif.

3. Yn croesawu papur gwyn Ceidwadwyr Cymru, 'Dinasoedd Byw', sy'n ceisio adeiladu dinasoedd ac ardaloedd trefol sy'n gynhwysol yn gymdeithasol, yn gynaliadwy'n amgylcheddol, ac wedi'u seilio ar yr egwyddor o sicrhau iechyd a llesiant dinasyddion.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 18 | 0 | 34 | 52 |

**Gwrthodwyd y cynnig heb ei ddiwygio.**

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 –** Julie James (Gorllewin Abertawe)

Dileu pwyntiau 2 a 3 a rhoi yn eu lle:

Yn nodi pwysigrwydd cefnogi cymunedau ledled Cymru,rhai trefol a gwledig, i sicrhau eu bod yn ddeniadol i fuddsoddi, gweithio, byw, ymweld ac astudio ynddynt.

Yn credu bod cefnogi twf cynhwysol a chreu cymunedau cydnerth y mae'n bosib byw ynddynt yn galw am ddull ar y cyd o fynd i'r afael ag ymyriadau allweddol, gan gynnwys datblygu economaidd, buddsoddiadau adfywio, trafnidiaeth, datblygu seilwaith, cynllunio a sgiliau.

Yn nodi bod Cynllun Gweithredu Economaidd diweddar Llywodraeth Cymru, Cronfa Buddsoddi Cymru mewn Adfywio, Cynllun Gweithredu Tasglu'r Cymoedd ac ymgynghoriad y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol yn sail ar gyfer dull trawslywodraethol gwirioneddol i gefnogi twf cynhwysfawr a chreu cymunedau cydnerth, y mae'n bosibl byw ynddynt.

Yn cydnabod pwysigrwydd cydweithio â phartneriaid gan gynnwys awdurdodau lleol, rhanbarthau bargeinion dinesig a thwf, cymdeithasau tai, Trafnidiaeth Cymru a Banc Datblygu Cymru i hyrwyddo'r broses o greu lle.

Ffyniant i Bawb: y cynllun gweithredu ar yr economi

Ein Cymoedd, Ein Dyfodol: Cynllun Cyflawni

Ymgynghoriad: Fframwaith Datblygu Cenedlaethol

*[Os derbynnir gwelliant 1, caiff gwelliant 2 ei ddad-ddethol]*

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 1:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 28 | 1 | 23 | 52 |

**Derbyniwyd gwelliant 1.**

**Gan fod gwelliant 1 wedi'i dderbyn, cafodd gwelliant 2 ei ddad-ddethol.**

**Gwelliant 3 - Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gyflwyno Deddf aer glân i fynd i'r afael â lefelau anghyfreithlon a pheryglus o lygredd aer yn ninasoedd Cymru.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 3:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 26 | 0 | 27 | 53 |

**Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Llywydd ei phleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant. Felly, gwrthodwyd y gwelliant.**

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig fel y'i diwygiwyd:**

**NDM6734** [Paul Davies (Preseli Sir Benfro)]

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi pwysigrwydd ardaloedd trefol yng Nghymru fel peiriannau o dwf economaidd, dysgu a chreadigrwydd.

2. Yn nodi pwysigrwydd cefnogi cymunedau ledled Cymru,rhai trefol a gwledig, i sicrhau eu bod yn ddeniadol i fuddsoddi, gweithio, byw, ymweld ac astudio ynddynt.

3. Yn credu bod cefnogi twf cynhwysol a chreu cymunedau cydnerth y mae'n bosib byw ynddynt yn galw am ddull ar y cyd o fynd i'r afael ag ymyriadau allweddol, gan gynnwys datblygu economaidd, buddsoddiadau adfywio, trafnidiaeth, datblygu seilwaith, cynllunio a sgiliau.

4. Yn nodi bod Cynllun Gweithredu Economaidd diweddar Llywodraeth Cymru, Cronfa Buddsoddi Cymru mewn Adfywio, Cynllun Gweithredu Tasglu'r Cymoedd ac ymgynghoriad y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol yn sail ar gyfer dull trawslywodraethol gwirioneddol i gefnogi twf cynhwysfawr a chreu cymunedau cydnerth, y mae'n bosibl byw ynddynt.

5. Yn cydnabod pwysigrwydd cydweithio â phartneriaid gan gynnwys awdurdodau lleol, rhanbarthau bargeinion dinesig a thwf, cymdeithasau tai, Trafnidiaeth Cymru a Banc Datblygu Cymru i hyrwyddo'r broses o greu lle.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 27 | 12 | 13 | 52 |

**Derbyniwyd y cynnig fel y'i diwygiwyd.**

## 6 Dadl Plaid Cymru - Sefydlu cwmni ynni cyhoeddus

Dechreuodd yr eitem am 15.44

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig a'r gwelliannau o dan yr eitem hon tan y Cyfnod Pleidleisio.**

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig heb ei ddiwygio:

**NDM6735** Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi cynnig hirsefydlog Plaid Cymru am sefydlu cwmni ynni sy'n eiddo i'r cyhoedd, Ynni Cymru.

2. Yn nodi ymrwymiad maniffesto Plaid Lafur Cymru 2017 i gefnogi "creu cwmnïau a chydweithfeydd ynni cyhoeddus, sy'n atebol yn lleol i gystadlu yn erbyn cyflenwyr ynni preifat presennol, gydag un o leiaf ym mhob rhanbarth".

3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sefydlu cwmni ynni sy'n eiddo i'r cyhoedd.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 10 | 2 | 40 | 52 |

**Gwrthodwyd y cynnig heb ei ddiwygio.**

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 –** Julie James (Gorllewin Abertawe)

Dileu pwynt 3 a rhoi yn ei le:

Yn nodi bod y gwaith a wnaeth Llywodraeth Cymru gyda rhanddeiliaid wedi dangos na ddylem fynd ar drywydd cwmni cyflenwi ynni i Gymru gyfan, ond y dylem yn hytrach barhau i archwilio dulliau eraill o sicrhau manteision i Gymru yn unol â'r blaenoriaethau a'r targedau sydd wedi'u nodi gan Lywodraeth Cymru.

Yn cydnabod cyfraniad rhaglenni a ariennir gan Lywodraeth Cymru, megis Cartrefi Cynnes, Nyth ac Arbed, Ynni Lleol, Twf Gwyrdd Cymru a'r rhaglen Byw yn Glyfar o ran creu busnesau ynni dan berchnogaeth leol fel rhan o'r broses o droi at economi carbon isel.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 1:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 39 | 2 | 11 | 52 |

**Derbyniwyd gwelliant 1.**

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig fel y'i diwygiwyd:**

**NDM6735** [Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)]

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi cynnig hirsefydlog Plaid Cymru am sefydlu cwmni ynni sy'n eiddo i'r cyhoedd, Ynni Cymru.

2. Yn nodi ymrwymiad maniffesto Plaid Lafur Cymru 2017 i gefnogi "creu cwmnïau a chydweithfeydd ynni cyhoeddus, sy'n atebol yn lleol i gystadlu yn erbyn cyflenwyr ynni preifat presennol, gydag un o leiaf ym mhob rhanbarth".

3. Yn nodi bod y gwaith a wnaeth Llywodraeth Cymru gyda rhanddeiliaid wedi dangos na ddylem fynd ar drywydd cwmni cyflenwi ynni i Gymru gyfan, ond y dylem yn hytrach barhau i archwilio dulliau eraill o sicrhau manteision i Gymru yn unol â'r blaenoriaethau a'r targedau sydd wedi'u nodi gan Lywodraeth Cymru.

4. Yn cydnabod cyfraniad rhaglenni a ariennir gan Lywodraeth Cymru, megis Cartrefi Cynnes, Nyth ac Arbed, Ynni Lleol, Twf Gwyrdd Cymru a'r rhaglen Byw yn Glyfar o ran creu busnesau ynni dan berchnogaeth leol fel rhan o'r broses o droi at economi carbon isel.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 39 | 4 | 9 | 52 |

**Derbyniwyd y cynnig fel y'i diwygiwyd.**

## 7 Dadl Plaid Annibyniaeth y Deyrnas Unedig – Cyllid Prifysgolion

Dechreuodd yr eitem am 16.42

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig a'r gwelliannau o dan yr eitem hon tan y Cyfnod Pleidleisio.**

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig heb ei ddiwygio:

**NDM6731** [Caroline Jones (Gorllewin De Cymru)]

Yn cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn croesawu adolygiad arfaethedig Llywodraeth y DU o gyllid prifysgolion a gyhoeddwyd ar 19 Chwefror 2018.

2. Yn nodi'r adroddiadau gan y Sefydliad Siartredig Personél a Datblygu: 'Over-qualification and skills mismatch in the graduate labour market' a 'The graduate employment gap: expectations versus reality'.

3. Yn galw ar Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru i:

a) gweithio gyda'i gilydd i ddatblygu model cynaliadwy ar gyfer cyllid myfyrwyr yn y dyfodol;

b) diddymu ffioedd dysgu ar gyfer myfyrwyr STEM, meddygol a nyrsio; a

c) ehangu cwmpas Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru i adolygu cyrsiau gradd ar gyfer enillion disgwyliedig, ac chyhoeddi'r adolygiadau hyn i bob darpar fyfyr.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 6 | 0 | 46 | 52 |

**Gwrthodwyd y cynnig heb ei ddiwygio.**

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 – Julie James (Gorllewin Abertawe)**

Dileu popeth a rhoi yn ei le:

Yn cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi adolygiad Llywodraeth Cymru o gyllid addysg uwch a gafodd ei arwain gan yr Athro Syr Ian Diamond a'i gyhoeddi ar 27 Medi 2016.

2. Yn nodi i Adolygiad Diamond ganfu mai costau byw oedd y prif rwystr i'r rhai hynny a oedd yn gwneud penderfyniad ynghylch mynd i'r brifysgol

3. Yn croesawu'r pecyn newydd ar gyllid i fyfyrwyr ar gyfer 2018/19 a lansiwyd gan Lywodraeth Cymru, sy'n golygu:

a) y bydd myfyrwyr yn derbyn cymorth cynhaliaeth sy'n gyfwerth â'r Cyflog Byw Cenedlaethol – y cymorth mwyaf hael yn y DU;

b) y gall pob myfyriwr cymwys hawlio isafswm grant o £1,000 na fydd yn rhaid iddynt ei dalu yn ôl; ac

c) mai Cymru yw'r wlad gyntaf yn Ewrop i gyflwyno cymorth cynaliaeth sy'n gyfwerth â'r Cyflog Byw Cenedlaethol i israddedigion amser llawn a rhan-amser. Caiff ei gynnig i fyfyrwyr ôl-raddedig yn 2019.

*[Os derbynnir gwelliant 1, caiff gwelliant 2 a 3 eu dad-ddethol]*

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 1:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 27 | 0 | 25 | 52 |

**Derbyniwyd gwelliant 1.**

**Gan fod gwelliant 1 wedi'i dderbyn, cafodd gwelliannau 2 a 3 eu ddad-ddethol.**

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig fel y'i diwygiwyd:**

**NDM6731** Caroline Jones (Gorllewin De Cymru)

Yn cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi adolygiad Llywodraeth Cymru o gyllid addysg uwch a gafodd ei arwain gan yr Athro Syr Ian Diamond a'i gyhoeddi ar 27 Medi 2016.

2. Yn nodi i Adolygiad Diamond ganfu mai costau byw oedd y prif rwystr i'r rhai hynny a oedd yn gwneud penderfyniad ynghylch mynd i'r brifysgol

3. Yn croesawu'r pecyn newydd ar gyllid i fyfyrwyr ar gyfer 2018/19 a lansiwyd gan Lywodraeth Cymru, sy'n golygu:

a) y bydd myfyrwyr yn derbyn cymorth cynhaliaeth sy'n gyfwerth â'r Cyflog Byw Cenedlaethol - y cymorth mwyaf hael yn y DU;

b) y gall pob myfyriwr cymwys hawlio isafswm grant o £1,000 na fydd yn rhaid iddynt ei dalu yn ôl; ac

c) mai Cymru yw'r wlad gyntaf yn Ewrop i gyflwyno cymorth cynaliaeth sy'n gyfwerth â'r Cyflog Byw Cenedlaethol i israddedigion amser llawn a rhan-amser. Caiff ei gynnig i fyfyrwyr ôl-raddedig yn 2019.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 36 | 0 | 16 | 52 |

**Derbyniwyd y cynnig fel y’i diwygiwyd.**

## 8 Cyfnod pleidleisio

Dechreuodd yr eitem am 17.19

## 9 Dadl Fer

Dechreuodd yr eitem am 17.23

**NDM6730** Neil McEvoy (Canol De Cymru)

Cymru sofran: adeiladu'r wlad falch, sofran ac unedig y gall Cymru fod ac y dylai fod.

Daeth y cyfarfod i ben am 17.42

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mawrth, 12 Mehefin 2018**